

Llythyr agored at Weinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams AS

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)

## **GALWN ARNOCH I HEPGOR O FIL Y CWRICWLWM UNRHYW ORFODAETH I GYFLWYNO SAESNEG O'R OED CYNHARAF**

Annwyl Weinidog

Ysgrifennwn atoch fel addysgwyr a llywodraethwyr yn Sir Gaerfyrddin a Dyffryn Teifi i ofyn i chwi dynnu allan o Fil y Cwricwlwm unrhyw gyfeiriad at gyflwyno Saesneg i ddisgyblion o'r oedran cynharaf.

Gwyddom o brofiad degawdau bellach mai'r unig ddull o sicrhau fod plant yn meithrin y sgil o allu gweithio a chyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yw trwy ddull trochiant yn y Gymraeg o'r oed cynharaf. Ers degawdau bellach, dyma'r norm ym mwyafrif mawr yr ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg a dwyieithog. Erbyn hyn bydd holl ysgolion cynradd y sir ar gontinwwm tuag at y model hwn er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn datblygu'r sgiliau ar gyfer cymdeithas ddwyieithog fodern.

Bydd unrhyw gymal yn y Bil sy'n gosod norm newydd o gyflwyno Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg o'r oedran cynharaf yn tanseilio holl lwyddiant y dull o drochiant. Golygir y bydd yn anos o lawer cymhathu plant newydd-ddyfodiaid i'r ardal ac yn anos o lawer i ddisgyblion ddatblygu'r sgiliau ar gyfer y Gymru fodern.

Deallwn eich bod yn ystyried dull i lywodraethwyr gyflwyno achos i optio allan o'r drefn a chynnal addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Byddai dull optio allan yn gwbl annerbyniol gan ei fod yn rhoi'r argraff fod addysg Gymraeg o'r fath yn abnormal ere i bod wedi ei sefydlu bellach ers degawdau fel norm. Gallai cymal o'r fath ail-gynnau dadlau am fater sydd wedi'i hen setlo a thanseilio'r cytgord cadarnhaol sydd mor bwysig yn ein cymunedau.

Galwn arnoch i hepgor hyn o Fil y Cwricwlwm

ENW

ATHRO/SWYDDOG/LLYWODRAETHWR